

Newyddlen Ysgol Cwm y Glo

Newyddion

Yn dilyn ymweliad y cwm tywys i'r ysgol yn ddiweddar, rydym wedi cael cyfle i fabwysiadu dosbarth o gwn bach a dilyn eu hyfforddiant. O ganlyniad byddwn yn rhoi cyfraniad o bob gweithgaredd codi arian i'r elusen er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud ein rhan i gyfranu tuag at gostau hyfforddi y cwm. Rydym yn edrych ymlaen i gael ymweliadau rheolaidd i'r ysgol a byddwn yn cael newyddion ar sut mae ein cwm bach yn dod yn eu blaenau.

Staff yr Ysgol:

Mrs. Nia Oliver	Pennaeth ac Athrawes BI M, D., BI1 a BI 2
Miss Eleri Jones	Athrawes BI 3, BI4, BI 5 a BI. 6
Mrs. Elen Morgan	Athrawes BI M, D, BI 1 a BI 2
Miss Wendy Smith	Cymhorthydd
Miss Mareid Morris	Cymhorthydd
Miss Heather Johnstone	Cymhorthydd (pob dydd Gwener)
Miss Kelly Williams	Cymhorthydd Clerigol a Goruchwylwraig Amser Cinio
Anti Janet	Cogyddes
Anti Chris	Gofalwraig

Dosbarthiadau:

Peris

Blynyddoedd M, D, 1 a 2

Marchlyn

Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6

Gwybodaeth am drefniadau:

Mrs. Morgan yn nosbarth Peris Llun a Mawrth
Mrs. Oliver yn nosbarth Peris Mercher, Iau a Gwener, yn nosbarth Marchlyn prynhawn Gwener.
Miss Jones yn nosbarth Marchlyn
Miss Smith—dosbarth Peris
Miss Mareid yn nosbarth Marchlyn
Miss Johnstone yn nosbarth Marchlyn pob dydd Gwener.

Thema'r Dosbarthiadau

Dosbarth Peris— 'Anifeiliaid'

Dosbarth Marchlyn—'Dwr'

Dyddiadau Pwysig

27/2/15	Noson 'Y Cyfeillion' ym Mharc Snowdonia, Waunfawr.
28/2/15	Eisteddfod yr Urdd—Ysgol Brynrefail
2/3/15	Dathliad Dydd Gwyl Dewi
3/3/15	BI 5 a 6 I Ysgol Llanrug—cyflwyniad ar 'Tryweryn', Cyfarfod yr Urdd
5/3/15	Diwrnod y Llyfr ac Ymweliad gan Hafan Cymru
10/3/15	Cyfarfod yr Urdd
11/3/15	Gwasanaeth boreuol gan ein ffrindiau 'Agor y Llyfr', (y grwp Dawnsio Gwerin yn cael eu beirniadu yn yr ysgol)
12/3/15	Eisteddfod Dawnsio Disgo (Ysgol Brynrefail tua 4.30 y.h. amser i'w gadarnhau.)
13/3/15	Diwrnod trwynau coch/Comic Relief
14/3/15	Eisteddfod y Sir (Neuadd Pritchard Jones, Bangor)
17/3/15	Tynnu lluniau Ysgol o 8.30 y.b. ymlaen, Cyfarfod yr Urdd
19/3/15	Cyfarfod Llywodraethwyr
24/3/15	Cyfarfod yr Urdd
26/3/15	Disgo'r plant gan y Cyfeillion a'r cystadleuaethau Pasg.
27/3/15	Ysgol yn cau — Gwyliau Y Pasg
13/4/15	Ysgol ar agor i staff (HMS)

Arian Cinio

£2.05 y dydd

£10.25 yr wythnos

Os gwelwch yn dda:

- i'w dalu ar **ddydd Llun neu ddydd Gwener**
- i'w roi mewn amlen gydag enw eich plentyn a chyfanswm yr arian wedi ei nodi yn glir
- **Cewch dalu gyda siec/ arian parod am yr wythnos, mis neu dymor o flaen llaw. Mae Anti Janet yn cadw cofnodion manwl a bydd unrhyw ordaliad yn cael ei gario drosodd neu ei dalu yn ôl i chi.**

Anti Janet sydd yn gyfrifol am yr Arian Cinio felly gyrrwch nodyn iddi os oes ganddoch unrhyw gwestiwn.

Addysg Gorfforol

Dosbarth Peris Prynawn Mercher

Dosbarth Marchlyn Prynawn Iau

Pawb i'r Ganolfan Hamdden ar fore Gwener— Yn anffodus mae'n rhaid i ni godi £2.50 y plentyn er mwyn talu costau'r cludiant (*cewch dalu yn wythnosol neu yn dymhorol*).

Tymor yma:

Dosbarth Peris— **Tenis**

Dosbarth Marchlyn—**BI 3 a 4 Gymnasteg**

Dosbarth Marchlyn—**BI 5 a 6 Nofio**

*Caiff y plant ddod i'r ysgol yn eu dillad Addysg Gorfforol ar fore Gwener ond mae'n rhaid iddynt newid i wisg ysgol ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

Mae'n **hanfodol** bod pob plentyn o'r Meithrin i Flwyddyn 6 yn dod â dillad addas i newid iddynt ar gyfer gwrs Addysg Gorfforol ac i newid yn ôl i wisg ysgol ar ddiwedd y wers.

Mae'n rhan o asesiadau y Cyfnod Syfaen ein bod yn gweld pwy sydd yn gallu newid, cau botymau, rhoi esgidiau a sannau am eu traed a.y.y.b. Mae gofynnion addysg bersonol yn gofyn i ni bwysleisio hylendid, newid dillad ar ôl chwysu a.y.y.b., yn ogystal â iechyd a diogelwch cymeryd rhan mewn gwrsi ymarferol mewn dillad addas. **Felly os gwelwch yn dda fedrwch chi sinrhau bod pob plentyn gyda dillad addysg gorfforol i newid iddynt.**

Presenoldeb a Phrydlondeb

Diolch yn fawr iawn am eich ymdrechion i sicrhau bod eich plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydon a bod rheswm dilys am bob absenoldeb.

Cafodd nifer o ddisgyblion dystysgrifau presenoldeb ar ddiwedd y tymor—a thri dystysgrif presenoldeb 100% am y tymor.

Ar ddiwedd y tymor roedd presenoldeb dosbarth Peris yn 93% a phresenoldeb dosbarth Marchlyn yn 94%.

Rydym yn anelu at gyrraedd 95% erbyn diwedd y flwyddyn addysgol.

Gyda'r profion ac asesiadau cenedlaethol yn cael eu cynnal yn gynnar yn nhymor yr haf, mae'n hanfodol bod eich plentyn yn yr ysgol er mwyn iddynt gael pob cymorth a chyfle i lwyddo.

Gyda diolch am eich cydweithrediad parod trwy'r flwyddyn - mae'n cael ei werthfawrogi.